**Cyfeirnod:** IR912

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Mai 2024

# Archwiliad o Gynghorau Tref a Chymuned ALlau

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 25 Mawrth 2024. Diolch am eich amynedd. Roedd yn rhaid cysylltu ffynonellau data ar wahân i gynnal y dadansoddiad y gofynnwyd amdano, sydd wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn flaenorol. Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod a nodi ein hymatebion cyfatebol.

1. **Nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd wedi cael Tystysgrif Cwblhau Archwiliad mewn perthynas â'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 erbyn 31 Mawrth 2024.**
   15 allan o 22 awdurdod unedol.
2. **Nifer yr Awdurdodau Lleol sydd wedi cael Adroddiad Archwilio "glân" ar eu Datganiadau Ariannol hyd at 31 Mawrth 2023, erbyn 31 Mawrth 2024.**
   15 allan o 22 awdurdod unedol.
3. **Nifer y Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru sydd wedi cael Tystysgrif Cwblhau Archwiliad mewn perthynas â'u Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 erbyn 31 Mawrth 2024.**
   Dim ond un CTCh sydd uwchlaw £2.5m. Barn ddiamod oedd honno. Mae'r data isod ar gyfer cynghorau o dan £2.5m:

| **Barn** | **Archwiliad 2022-23 wedi'i gwblhau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm a gwariant (£)** | | | | | |
| | 0-49,999 | 50,000-99,999 | 100,000-149,999 | 150,000-199,999 | >200,000 | **Cyfanswm** |
| Amodol | 44 | 7 | 3 | 4 | 3 | **61** |
| Amodol gyda materion eraill | 55 | 12 | 3 | 3 | 5 | **78** |
| Diamod | 88 | 26 | 13 | 8 | 34 | **169** |
| Diamod gyda | 60 | 13 | 4 | 2 | 10 | **89** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| materion eraill | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **247** | **58** | **23** | **17** | **52** | **397** |

4. **Nifer y Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru sydd wedi cael Adroddiad Archwilio "glân" ar eu datganiadau ariannol hyd at 31 Mawrth 2023, erbyn 31 Mawrth 2024.**
   Gweler y tabl uchod.
5. **Efallai y byddai'n bosibl i bwyntiau 3 a 4 wahanu'r ymateb yn ôl tair haen maint Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.**
   Gweler cwestiwn 3 uchod.
6. **A fyddech cystal â chadarnhau nifer y Cynghorau Tref a Chymuned ag Incwm a Gwariant uwchlaw £200,000 a fu'n destun archwiliad manwl bob tair blynedd ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-2023, a faint o'r Cynghorau hyn a gafodd Adroddiad Archwilio "glân"?**
   Roedd 30 o Gynghorau Tref a Chymuned ag Incwm a Gwariant uwchlaw £200,000 yn destun archwiliad manwl bob tair blynedd ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-2023. Mae 8 o'r rhain wedi'u cwblhau, ac mae 2 ohonynt yn Ddiamod, 4 yn Ddiamod gyda materion eraill, a 2 yn Amodol gyda materion eraill.
7. 

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth